Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar:

# Ysgol Craig y Parc

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015

## gan

## Estyn, Arolygaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu yn ôl yr adran hon yw adrodd am gydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2015**

## Cyd-destun

Ysgol breswyl annibynnol ac ysgol ddydd arbennig sy'n darparu addysg ar gyfer 40 o ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed yw Craig y Parc.  Nifer fach o ddisgyblion yn unig sy'n preswylio yn yr ysgol yn amser llawn ac mae lleiafrif ohonynt yn cael gofal seibiant.

Perchennog yr ysgol yw elusen Scope, sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion sydd ag anghenion cymorth cymhleth.  Caiff Scope ei reoli gan fwrdd o ymddiriedolwyr ac mae gan yr ysgol gorff llywodraethol sy'n goruchwylio perfformiad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod o anghenion corfforol cymhleth ac anawsterau dysgu cysylltiedig.  Mae'r rhain yn cynnwys parlys yr ymennydd, dysffagia, awtistiaeth ac epilepsi.  Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn wyth dosbarth, yn seiliedig ar angen a gallu.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol gyda chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o dde Cymru i gyd ac awdurdodau cyfagos yn Lloegr.  Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, mae ychydig dros 17% o ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth yn Rhagfyr 2014.  Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae Craig y Parc yn ysgol dda oherwydd:

- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ac mae'n cyd-fynd yn gyffredinol â'u targedau dysgu a'u gallu
- Mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda trwy gydol eu gwers ac yn dyfalbarhau i gwblhau tasgau
- Mae ymddygiad pob disgybl yn eithriadol o dda
- Mae disgyblion hŷn yn ennill ystod eang o gymwysterau cydnabyddedig
- Yn 2014, ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig, ac ar ddiwedd y chweched dosbarth, aeth pob ohonynt ymlaen i addysg bellach

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith yn gyflym i gefnogi gwelliannau
- Mae'r adolygiad diweddar o'r cwricwlwm wedi arwain at gynllunio a chyflwyno pynciau'n well
- Mae gan yr ysgol gynllun gwella addas erbyn hyn
- Mae'r camau a gymerwyd gan arweinwyr ar bob lefel i wella'r ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol

Fodd bynnag:

- Megis dechrau cael eu datblygu y mae cynllunio ar gyfer gwelliant a hunanarfarnu ar y cyfan

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Adeiladau a safleoedd preswyl mewn ysgolion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd y dylid ymdrin â chwynion

- Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod pob disgybl, lle bo'n briodol, yn gallu manteisio ar ystod briodol o dechnoleg gynorthwyol er mwyn gwella ansawdd eu profiadau dysgu

A2 Rhoi system gwybodaeth reoli effeithiol ar waith

A3 Gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu dan do ac allanol i sicrhau hygyrchedd gwell i bob disgybl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Dylai hefyd anfon y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i bob rhiant yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r gwelliannau hyn yn cyd-fynd â'u targedau dysgu a'u gallu ar y cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau cyfathrebu a gallant gyfleu eu hanghenion naill ai ar lafar neu drwy ystum. Mae disgyblion ag anghenion cyfathrebu cymhleth yn datblygu medrau cyfathrebu cynnar fel gwneud dewisiadau a rhoi gwybod beth maent yn ei ffafrio trwy ddefnyddio switshis i weithio offer ac adnoddau ystafell ddosbarth. Mae bron pob un o'r disgyblion yn hyderus yn cymryd rhan mewn gwersi ac maent yn ymateb yn briodol i gwestiynau uniongyrchol. Mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n fwriadol ac yn cynnig atebion. Maent yn llwyddo yn sgil canmoliaeth lafar, er enghraifft trwy ymestyn eu cyrff ymhellach yn ystod ymarferion llawr. Mewn sesiynau llythrennedd, gall disgyblion na allant siarad sy'n gallu cerdded ddangos eu bod yn deall ansoddeiriau trwy stampio a rhedeg.

Mae disgyblion mwy abl yn darllen ystod o ddeunyddiau a *genres* perthnasol gan gynnwys barddoniaeth. Yn ychwanegol, maent wedi gwneud gwaith ymchwil ar effeithlonrwydd ynni, wedi casglu a dadansoddi eu canfyddiadau a'u cyflwyno'n glir gan ddefnyddio graffiau priodol.

Nid yw disgyblion na allant siarad yn datblygu eu medrau iaith cystal ag y gallent. Mae disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu yn briodol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn wannach nag agweddau eraill ar y cwricwlwm ar y cyfan. Mae hyn yn aml am nad yw disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio'r dechnoleg briodol i'w cynorthwyo.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o gyfrif. Gall disgyblion iau gyfrif rhifau un digid ac mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o arian yn ei gyd-destun. Gallant adnabod a chofio enwau papurau a darnau arian yn gyflym a chywir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r pedair gweithred yn briodol i gyfrifo. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu dealltwriaeth o siapiau dau ddimensiwn a gallant nodi nodweddion siapiau yn gywir. Yn ychwanegol, maent yn datblygu dealltwriaeth o raddfa a ffracsiynau. Gall mwyafrif y disgyblion weithio trwy broblemau rhesymu rhifiadol syml.

Mae llawer o ddisgyblion, lle bo'n briodol, yn llwyddo i gael eu Tystysgrif Cadair Bŵer Drydan Dan Do ac Awyr Agored (EPIOC). Maent yn dysgu llywio heibio rhwystrau yn llwyddiannus ac yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r cadeiriau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth ymgodymu â phalmentydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn magu mwy o hyder ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae disgyblion hŷn yn ennill ystod eang o gymwysterau cydnabyddedig. Yn 2014, gwnaed 39 o ddyfarniadau mewn cyrsiau lefel mynediad. Llwyddodd disgyblion i gael tystysgrifau lefel mynediad mewn ystod o bynciau, gan gynnwys bwyd ac iechyd, gweithio gydag onglau a lleoliad, ac archwilio barddoniaeth. Yn ychwanegol, llwyddodd ychydig iawn o ddisgyblion i gael gradd C mewn TGCh TGAU.

Yn 2014, ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd y chweched dosbarth ac aeth pob un ohonynt ymlaen i addysg bellach.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae bron pob un ohonynt yn credu bod yr ysgol yn eu haddysgu ynglŷn â bod yn iach. Mae pob disgybl yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn datblygu cryfder ac yn gwella'u sefydlogrwydd, er enghraifft trwy ddefnyddio eu fframiau sefyll neu eu fframiau cynnal. Mae disgyblion yn gwneud dewisiadau iach wrth ddewis eu cinio.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn dda yn eu cyngor ysgol gweithgar ac effeithiol. Maent wedi bod yn gyfrifol am sicrhau bod ystod o weithgareddau'n cael eu darparu yn ystod yr awr ginio, er enghraifft dawnsio mewn cadair olwyn, clwb ffilmiau a gemau bwrdd cof. Mae disgyblion yn dewis pa glwb y maent yn dymuno cymryd rhan ynddo ac mae bron pob disgybl yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

Sefydlwyd clwb bechgyn. Mae hyn yn galluogi dynion ifanc yr ysgol i gyfarfod yn anffurfiol, mewn amgylchedd cymdeithasol, lle maent yn trafod diddordebau cyffredin, gan gynnwys chwaraeon ac iechyd dynion.

Ar hyn o bryd, 88% yw'r gyfradd presenoldeb. Mae ymddygiad pob disgybl yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn eithriadol o dda. Maent yn gwrtais â'i gilydd a staff ac yn ymateb yn briodol i'r gofal a'r arweiniad a ddarperir gan staff.

Mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda trwy gydol eu gwersi. Maent yn dyfalbarhau yn eu hymdrechion corfforol i gwblhau tasgau. Mewn llawer o achosion, byddai'n haws i ddisgyblion gwblhau'r tasgau hyn pe baent yn cael cyfle i ddefnyddio technoleg briodol.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau priodol i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd; er enghraifft, maent yn codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Mae disgyblion hŷn yn profi cyfleoedd newydd trwy ymweld â cholegau addysg bellach a thrwy gymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith gwerth chweil. Mae'r profiadau hyn yn helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni gofyniad Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n cael ei addasu'n dda i fodloni anghenion dysgu ac anghenion corfforol cymhleth y disgyblion. Mae ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog a chymhellol yn ennyn diddordeb disgyblion ar draws yr holl amrediadau oedran. Mae'r rhain yn cynnwys profiadau synhwyraidd ar gyfer disgyblion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau annibyniaeth disgyblion, gan gynnwys eu symudedd.

Mae athrawon yn gweithio'n dda gyda staff therapi i gynnig darpariaeth therapiwtig integredig, sy'n hynod unigoledig.

Mae'r ysgol wedi diwygio'i dull o gynllunio'r cwricwlwm yn ddiweddar er mwyn gwella'r ffordd y mae'n olrhain a monitro medrau. Mae'r cynlluniau thematig tymhorol newydd yn cynnwys targedau unigol mewn ystod ehangach o fedrau, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae'r ysgol yn ymateb yn hyblyg i anghenion a dyheadau disgyblion. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 4 a'r sector ôl-16, mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau achrededig yn seiliedig ar eu diddordebau a'u galluoedd. Er mwyn paratoi'r disgyblion ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol, mae athrawon yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys Gyrfa Cymru, i sicrhau cyfnod pontio effeithiol.

Mae datblygu clybiau amser cinio yn ddiweddar wedi gwella cyfleoedd dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd da o'i thŷ gwydr i dyfu amrywiaeth o berlysiau a llysiau, sy'n cael eu defnyddio mewn gweithgareddau cwricwlwm dilynol.

**Addysgu: Da**

Mae staff yn Ysgol Craig y Parc yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion unigol y disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iddynt lwyddo. Maent yn ennyn diddordeb ac yn cymell disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio'n agos fel tîm. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'r cyngor a'r arweiniad a ddarperir gan therapyddion yr ysgol wrth gynllunio gweithgareddau sy'n cyfrannu tuag at ddysgu cadarnhaol.

Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio ystod o ddulliau addas i ennyn diddordeb disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau heriol ac ysgogol sy'n cymell disgyblion a'u galluogi i wneud cynnydd da. Mae hyn yn sicrhau bod gweithgareddau'n adeiladu'n dda ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, mae'r dysgu'n rhy araf ac nid yw staff bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfnodau ar ddechrau a diwedd y dydd i ddatblygu dysgu disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu adborth llafar effeithiol. Maent yn rhoi amser meddwl buddiol i ddisgyblion, sy'n galluogi iddynt ddatblygu atebion ar lafar, trwy arwyddion neu drwy ystumiau. Mae cwestiynau penagored yn archwilio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion yn dda.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddata o asesiadau a therapi unigol i gynllunio a gosod targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff y cynnydd a wna disgyblion yn y tymor byr yn anghyson. Er enghraifft, nid yw hi bob amser yn glir pa waith sydd wedi cael ei gynhyrchu'n annibynnol gan ddisgyblion. Mewn ychydig iawn o achosion, mae sylwadau athrawon yn anodd eu darllen. Nid yw'r defnydd o olrhain ysgol gyfan wedi'i ddatblygu'n ddigonol ac nid yw wedi cael effaith lawn a chynaledig ar safonau eto.

Mewn llawer o wersi, caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion a rhieni eu cynnwys yn gyson mewn gosod a monitro targedau unigol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau cynhwysfawr yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at iechyd, lles a dysgu disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol, trwy'r cwricwlwm ac ystod o weithgareddau ychwanegol, i helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, mae hylenydd deintyddol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ddangos i ddisgyblion sut i ofalu am eu dannedd fel rhan o'u trefn ddyddiol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ymarfer corff bob dydd yn ogystal ag ystod o weithgareddau mewn gwersi addysg gorfforol. Mae'r rhaglen amrywiol hon, sy'n cynnwys cyfle i ddisgyblion hŷn gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad cyffredinol disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gweithgareddau amser cylch, sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu gweithredoedd a'u credoau eu hunain. Mae hyn yn helpu i feithrin egwyddorion fel tegwch, parch ac ystyriaeth am bobl eraill.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion trwy amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol, sy'n bodloni eu hanghenion yn llwyddiannus. Yn benodol, mae'r trefniant i ddisgyblion gael cymorth unigoledig trwy dîm amlddisgyblaethol agos a hynod fedrus yn gryfder mawr yn narpariaeth yr ysgol.

Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae gan staff wybodaeth gadarn am anghenion unigol disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn arbennig o dda i ddarparu cymorth gofalgar, sensitif a ffocysedig iawn i helpu disgyblion i ymgysylltu'n llawn ym mywyd yr ysgol a gwneud cynnydd da yn gyson. Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau blynyddol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei threfniadau ar gyfer adolygu cynnydd disgyblion trwy gynlluniau addysg unigol yn ddigon rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol, gydag ethos sy'n gwerthfawrogi cefndiroedd a galluoedd amrywiol y disgyblion yn fawr. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn llawn ac yn frwdfrydig ym mywyd yr ysgol. Maent yn parchu ei gilydd a staff ac yn rhoi croeso cynnes i ymwelwyr. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u hysgol.

Mae lefel uchel yr ymddiriedaeth a'r gwerthfawrogiad rhwng disgyblion a staff ac yn eu plith yn eu helpu i ddatblygu empathi cryf â'i gilydd a gwerthfawrogi eu cefndiroedd amrywiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion.

Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae arddangosfeydd wal mewn ystafelloedd dosbarth yn olau ac yn cael eu defnyddio'n dda i gefnogi dysgu.

At ei gilydd, mae adnoddau ac offer yn addas ar gyfer bodloni anghenion dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw defnyddio technoleg fel adnodd i gefnogi dysgu disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i gyfrannu'n llawn ac nid ydynt bob amser yn gallu rheoli eu hamgylchedd cystal ag y gallent. Mae rhai coridorau y tu mewn i'r adeiladau ac ardaloedd dysgu y tu allan yn ei gwneud yn anodd i ddisgyblion deithio'n annibynnol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol ffocws priodol ar wella annibyniaeth disgyblion mewn amgylchedd meithringar a chefnogol. Mae pob un o'r staff yn rhannu'r weledigaeth gyffredin hon.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith i gefnogi gwelliannau. Maent wedi rhoi camau effeithiol ar waith, wedi'u cefnogi gan uwch dîm rheoli newydd, i roi cyfeiriad i reolaeth strategol yr ysgol ac ysgogi newid. Er bod y newidiadau hyn yn dechrau gwneud gwahaniaeth, mae'n ddyddiau cynnar o ran gwneud gwelliannau ac nid yw pob polisi wedi cael ei adolygu'n llawn.

Mae gan yr ysgol gynllun gwella addas erbyn hyn a gwneir cynnydd cyson wrth weithio tuag at dargedau gwella.

Mae uwch reolwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliannau angenrheidiol. Ceir system briodol ar gyfer rheoli perfformiad ac mae gan bob un o'r staff dargedau blynyddol, sy'n cael eu monitro bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r ysgol wedi bod yn effeithiol yn defnyddio'i system rheoli perfformiad i helpu staff i wneud gwelliannau. Mae arsylwadau cymheiriaid wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar i gefnogi datblygiad staff.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys rhieni a rhanddeiliaid lleol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol, yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Maent yn rhoi cymorth defnyddiol i'r ysgol ac yn dechrau cynnig her briodol.

Mae'r perchnogion yn darparu cymorth strategol defnyddiol ar gyfer yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r uwch dîm rheoli wedi cyflwyno proses briodol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn ddiweddar. Mae'n gwerthfawrogi ymgysylltiad rhanddeiliaid, gan ymgynghori'n eang ag athrawon, staff cymorth arweiniol, disgyblion, eu rhieni a gofalwyr a'r llywodraethwyr. Yn briodol, mae'r adroddiad arfarnu yn cynnwys gwybodaeth o arsylwadau ystafell ddosbarth ac adolygiadau o gynnydd disgyblion dros gyfnod.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu a luniwyd ar gyfer yr arolygiad yn gynhwysfawr ac yn amlygu meysydd priodol i'w gwella. Mae'n darparu darlun arfarnol a chywir o'r ysgol ar y cyfan.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cynnwys targedau addas wedi'u blaenoriaethu ar gyfer gweithredu. Mae'r cynllun yn ystyried yr argymhellion o arolygiadau ac ymweliadau monitro blynyddol blaenorol. Mae'n nodi'r unigolyn enwebedig sy'n gyfrifol am y camau gweithredu a'r raddfa amser ar gyfer eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut bydd y goblygiadau ariannol ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu yn cael eu bodloni.

Er mai megis dechrau datblygu y mae cynllunio gwelliant a hunanarfarnu, maent eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth yn yr ysgol. Yn sgil adolygu'r cwricwlwm yn ddiweddar, newidiwyd y ffordd y caiff pynciau eu cynllunio a'u cyflwyno, ac mae staff ar bob lefel yn cyfarfod yn rheolaidd erbyn hyn i fonitro ac adolygu targedau dosbarth unigol a dosbarth. Mae'r newidiadau hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses wella.

Mae'r ysgol yn casglu ystod o ddata ar ddisgyblion unigol, gan gynnwys cynnydd y maent yn ei wneud yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol system effeithiol ar gyfer gwybodaeth reoli. O ganlyniad, nid yw'n defnyddio data yn ddigon da i ddadansoddi perfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r ysgol gyfan.

Rhoddwyd cylch sicrhau ansawdd ar waith i adolygu perfformiad staff, polisïau a gweithdrefnau. Nid yw'r cylch hwn wedi cael ei ymgorffori'n llawn eto.

Mae'r camau sy'n cael eu cymryd gan arweinwyr ar bob lefel i wella'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid fel y gall fodloni anghenion amrywiol pob un o'r disgyblion. Caiff gymorth cryf gan y perchennog gyda materion yn ymwneud â chyllid ac adnoddau dynol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr a sefydliadau fel Gyrfa Cymru. Mae'n cysylltu'n llwyddiannus ag ysgolion prif ffrwd lle mae gan rai disgyblion leoliadau deuol, yn ogystal â cholegau addysg bellach a darparwyr eraill. Mae'r rhain yn ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ceir cysylltiadau effeithiol â dwy brifysgol i gefnogi hyfforddiant a datblygiad staff yn y rhaglen therapi arbenigol a ddarperir gan yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau myfyrwyr o'r brifysgol yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu staff i hyrwyddo arfer dda yn yr ysgol a thu hwnt.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau sefydledig a phriodol gydag ystod o awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol eraill. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion dysgu a lles disgyblion yn cael eu bodloni.

Mae bron pob un o'r rhieni a'r gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r ohebiaeth reolaidd a gânt gan yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ystod werthfawr o staff sy'n meddu ar brofiad a chymwysterau priodol. Mae'r rhain yn cynnwys staff cymorth, athrawon a therapyddion arbenigol. Maent yn gweithio'n dda fel tîm staff ac yn cyfrannu'n sylweddol at addysg, gofal, cymorth ac arweiniad y disgyblion.

Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion ac mae'n defnyddio staff i gynorthwyo disgyblion yn briodol.

Caiff staff hyfforddiant diweddaru blynyddol ar ystod o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys diogelu, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Mae'r rhan fwyaf o staff yn manteisio ar ystod o gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael eu nodi'n addas trwy drefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'r rhain yn dechrau cael eu cysylltu'n fwy cadarn â chynllun gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae staff cymorth wedi elwa ar gyrsiau mewn lleferydd ac iaith a'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae athrawon wedi cael llai o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiadau yn y cwricwlwm.

Mae'r ysgol wedi pennu blaenoriaethau gwella priodol yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw costau'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu datblygu'n llawn.

Oherwydd y deilliannau da a gyflawnir gan ddisgyblion a'u lefelau lles uchel, mae'r ysgol yn darparu gwerth am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur arbennig (cyffredinol)

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 25 | 25<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | |
| The school deals well with any bullying. | 23 | 20<br>87% | 1<br>4% | 2<br>9% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 87% | 4% | 9% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 27 | 26<br>96% | 1<br>4% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | 0% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 25 | 24<br>96% | 1<br>4% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 96% | 4% | 0% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 27 | 26<br>96% | 1<br>4% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | 0% | |
| I am doing well at school | 27 | 27<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 27 | 27<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | 0% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 26 | 26<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | 0% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 18 | 15<br>83% | 2<br>11% | 1<br>6% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 83% | 11% | 6% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 27 | 24<br>89% | 1<br>4% | 2<br>7% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 89% | 4% | 7% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 26 | 24<br>92% | 1<br>4% | 1<br>4% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 92% | 4% | 4% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 26 | 25<br>96% | 0<br>0% | 1<br>4% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 96% | 0% | 4% | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 30 | 17 | 11 | 0 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 57% | 37% | 0% | 7% | | |
| | | 65% | 30% | 0% | 5% | | |
| My child likes this school. | 30 | 24 | 4 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 13% | 7% | 0% | | |
| | | 78% | 17% | 6% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 30 | 21 | 7 | 0 | 2 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 70% | 23% | 0% | 7% | | |
| | | 76% | 19% | 0% | 5% | | |
| My child is making good progress at school. | 30 | 15 | 10 | 2 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 33% | 7% | 7% | | |
| | | 59% | 27% | 5% | 5% | | |
| Pupils behave well in school. | 30 | 16 | 8 | 0 | 0 | 6 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 53% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 31% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 30 | 17 | 9 | 0 | 2 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 57% | 30% | 0% | 7% | | |
| | | 65% | 24% | 0% | 5% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 29 | 19 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 66% | 28% | 7% | 0% | | |
| | | 72% | 22% | 6% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 28 | 8 | 6 | 1 | 3 | 10 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 29% | 21% | 4% | 11% | | |
| | | 32% | 26% | 3% | 9% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 30 | 20 | 8 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 67% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 25% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 28 | 16 | 8 | 2 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 57% | 29% | 7% | 0% | | |
| | | 66% | 23% | 6% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 30 | 21 | 6 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 70% | 20% | 10% | 0% | | |
| | | 75% | 17% | 8% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 30 | 19 | 9 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 63% | 30% | 7% | 0% | | |
| | | 70% | 24% | 5% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 30 | 15 | 8 | 5 | 2 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 27% | 17% | 7% | | |
| | | 54% | 27% | 14% | 5% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 20<br>67%<br>70% | 8<br>27%<br>24% | 0<br>0%<br>0% | 2<br>7%<br>5% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 30 | 13<br>43%<br>54% | 13<br>43%<br>35% | 2<br>7%<br>5% | 1<br>3%<br>3% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 29 | 14<br>48%<br>58% | 8<br>28%<br>22% | 0<br>0%<br>0% | 2<br>7%<br>6% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 29 | 11<br>38%<br>44% | 5<br>17%<br>19% | 3<br>10%<br>8% | 3<br>10%<br>8% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 30 | 14<br>47%<br>57% | 13<br>43%<br>35% | 0<br>0%<br>0% | 2<br>7%<br>5% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | 30 | 15<br>50%<br>59% | 6<br>20%<br>16% | 3<br>10%<br>8% | 2<br>7%<br>5% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |

# Atodiad 2

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Huw Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Susan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Denise Wade | Arolygydd Tîm |
| Paul Scudamore | Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 |
| Rosa Walsh | Arolygydd Cymheiriaid |
| Marie Chambers | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Perchennog | Mae'r term 'perchennog', fel y'i diffinnir yn Neddf Addysg 1996, yn golygu'r unigolyn neu'r bobl sy'n gyfrifol am reoli ysgol annibynnol a gall gynnwys unig berchennog, cyrff llywodraethol, ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae'r ffyrdd y caiff ysgolion annibynnol eu llywodraethu a'u perchnogi yn amrywio'n fawr. Gallai perchennog neu ymddiriedolaeth fod yn berchen ar ysgol, neu gallai'r ysgol gael corff llywodraethol sy'n penodi pennaeth. Mae cyfuniad o'r rhain mewn rhai ysgolion. |